# POLISI ALERGENAU

Yn unol â Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014, bydd The Big Fresh Catering Company yn sicrhau bod gwybodaeth am alergenau'r holl eitemau bwyd a gynigir ar gael yn rhwydd ym mhob cegin/safle. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys yn y Ffeil Alergenau. Bydd y ffeil alergenau yn cael ei diweddaru ar unrhyw fwydlen neu newid cynnyrch a'i adolygu'n flynyddol. Bydd unrhyw gynnyrch sy'n dod i'r gegin yn lle rhywbeth arall yn cael ei gofnodi ar y Ffeil Alergenau i sicrhau y gall staff roi'r wybodaeth gywir am alergenau os oes angen.

Bydd pob cegin yn arddangos arwyddion alergenau bwyd a fydd yn weladwy i bob cwsmer. Bydd y Big Fresh Catering Company yn sicrhau bod yr holl gynhyrchion yn cael eu gwirio i nodi a oes cynhwysion alergenaidd a bydd yr holl gynhyrchion yn cael eu nodi'n glir. Bydd y taflenni manyleb cynnyrch sy'n cynnwys yr holl wybodaeth am alergenau yn cael eu cadw ym Mhrif Swyddfa The Big Fresh Catering Company. Bydd y cyflenwyr sydd wedi'u contractio'n darparu taflenni manyleb am unrhyw gynnyrch sy'n wahanol i'r arfer.

Cyfrifoldeb yr ysgolion yw sicrhau eu bod yn cadw'r wybodaeth ddiweddaraf am ddisgyblion o ran alergenau yn eu system rheoli gwybodaeth ysgol ac yn rhoi gwybod i Reolwr y Gegin am unrhyw newidiadau.

Bydd yr holl brydau bwyd heb alergenau yn cael eu paratoi yn gyntaf mewn ardal sydd wedi'i glanhau a'i ddiheintio'n drylwyr. Cân nhw eu labelu a'u cadw'n briodol. Rhaid gwisgo ffedogau glas tafladwy wrth baratoi bwyd heb alergenau. Dylai offer a ddefnyddir i baratoi/gweini pryd o fwyd heb alergenau gael eu golchi a'u diheintio'n drylwyr, eu golchi mewn peiriant golchi llestri neu eu golchi gan ddefnyddio sebon gwrthfacterol lle nad oes peiriant golchi llestri neu sinc diheintio ar gael.

## ALERGEDDAU BWYD / DIETAU ARBENNIG

### Beth yw alergedd?

Mae alergedd yn adwaith niweidiol i fwyd sy'n achosi i'r system imiwnedd ymateb o fewn munudau. Bydd symtomau'n dechrau megis brech danadl, y gwefusau'n chwyddo, ac anhawster anadlu. Mewn achosion difrifol, gall gael ei achosi gan olion lleiaf cynhwysyn. Gall adwaith alergaidd wneud rhai pobl yn sâl iawn ac mewn rhai achosion gall arwain at farwolaeth.

## 14 alergen a restrir o dan gyfraith yr UE:

Seleri
Grawnfwydydd sy’n cynnwys glwten
Cramenogion
Wyau
Pysgod
Bys y Blaidd (neu Lupin)
Llaeth
Molysgiaid
Mwstard
Cnau
Cnau Mwnci
Hadau Sesame
Ffa soia
sylffwr deuocsid/sylffitau

## Anoddefiadau Bwyd

Mae anoddefiad bwyd, neu sensitifrwydd bwyd yn digwydd pan fydd person yn cael anhawster i dreulio bwyd penodol. Gall hyn arwain at symptomau fel nwy yn y coluddyn, poen yn yr abdomen neu ddolur rhydd. Weithiau mae anoddefiad bwyd yn cael ei ddrysu ag alergedd bwyd neu ei gamlabelu fel alergedd bwyd. Mae anoddefiadau bwyd yn cynnwys y system dreulio e.e. anoddefiad lactos, glwten (Clefyd Coeliag).

## Gweithdrefn delio ag alergeddau bwyd neu ddeietau arbennig

Os bydd yr ysgol yn cysylltu â'r Cogydd / Rheolwr Cegin neu Reolwr Ardal gyda disgybl sydd â gofyniad dietegol penodol oherwydd alergedd bwyd neu anoddefiad bwyd, rhaid dilyn y drefn ganlynol:

- Bydd Rheolwr Cogydd / Cegin yn cysylltu â Rheolwr Ardal gyda manylion y disgybl a/neu Rheolwr Ardal yn cysylltu â'r ysgol i gael y wybodaeth y mae’r rhiant/gwarcheidwad/ymgynghorydd/dietegydd wedi’i darparu.
- Bydd y Rheolwr Ardal yn trefnu cyfarfod neu gyfweliad ffôn gyda'r rhiant/gwarcheidwad (os oes angen) i drafod y gofynion dietegol arbennig
- Mae angen llythyr gan y meddyg teulu neu'r ysbyty yn cadarnhau'r alergedd/anoddefiad penodol. Gall atgyfeiriadau ddod trwy'r dietegwyr
- Darperir bwydlen alergenau briodol i’w darllen gan y rhiant/gwarcheidwad. Gwirir manylebau cynnyrch am yr alergen penodol a datblygir bwydlen bwrpasol ar gyfer y disgybl os oes angen.
- Darperir bwydlen y cytunwyd arno i'r gegin a'r rhiant/gwarcheidwad

## Lleihau'r risg

Rhaid hyfforddi'r holl staff yn y gegin sy'n cynhyrchu neu'n gweini bwyd i'r disgybl fel bod pawb yn ymwybodol o'r person yr effeithir arno ac alergedd neu anoddefiad bwyd.

Gwnewch hi’n glir i bawb pa fwydydd a chynhwysion sy'n broblem ac a allai achosi'r ymateb alergaidd ac felly mae'n rhaid eu hosgoi

Sicrhewch fod pawb yn gwybod beth i'w wneud os bydd adwaith yn digwydd a gyda phwy i gysylltu ar unwaith
Rhaid cadw'r holl wybodaeth sy'n ymwneud â gofyniad dietegol penodol yn gyfrinachol a'i diogelu o dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol